OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 388 (Cy.39)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*13 Chwefror 2007*
Yn dod i rym	- -	*1 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), ac ar ôl ymghynghori yn unol ag adran 39(2) o'r Ddeddf honno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol y mae'n ymddangos iddo eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff o gyfrifwyr y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn —

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007, a deuant i rym ar 1 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005

2. Yn lle paragraff (1) o Reoliad 7 (Datganiad o gyfrifon) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**2**) rhodder—

> "(1) Rhaid i gorff y mae paragraffau (3) a (4) yn gymwys iddo baratoi yn unol ag arferion priodol o ran cyfrifon ddatganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn, gyda rhagair esboniadol, y mae'n rhaid iddo gynnwys y datganiadau cyfrifyddu canlynol hynny sy'n berthnasol i swyddogaethau'r corff—
>
> (a) cyfrif refeniw tai;
>
> (b) cronfa bensiwn diffoddwyr tân, os oes un;
>
> (c) unrhyw ddatganiadau eraill sy'n ymwneud â phob cronfa y mae'n ofynnol i'r corff o dan unrhyw ddarpariaeth statudol gadw cyfrif ar wahân ynglyn â hi.".

(**1**) 2004 p.23
(**2**) O.S. 2005/368 (Cy.34)